



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Bodffordd  
Canolfan Gymuned Bodffordd  
Bodffordd  
Llangefni  
LL77 7LZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens  
Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bodffordd yn gylch gyfrwng Cymraeg. Mae'n cyfarfod yng Nghanolfan Gymuned Bodffordd, yn awdurdod lleol Sir Fôn. Mae'r lleoliad ar agor am bedwar bore'r wythnos. Mae wedi'i gofrestru ers Hydref 2002 i dderbyn hyd at 18 o blant fesur sesiwn. Mae 21 o blant ar y gofrestr, yn amrywio o ddwy a hanner i bedair blwydd oed. Ar hyn o bryd mae 4 o blant yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Daw'r mwyafrif o blant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gartref. Adeg yr arolwg, nid oedd gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae 5 aelod o staff, yn cynnwys dau gyd-arweinydd a thri ymarferydd. Mae pob aelod o staff yn meddu ar gymwysterau addas ac maent yn brofiadol yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinyddion cylch chwarae wedi bod yn y swydd ers 2004.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) diwethaf ym mis Tachwedd 2013, a chan Estyn ym Mai, 2012.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- bod ymarferwyr yn gwbl ymroddgar i ddatblygiad y plant
- eu bod yn creu ethos cynhwysol, cartrefol a byrlymus
- eu bod yn gwneud defnydd rhagorol o amser ac o'r gofod sydd ar gael iddynt i hyrwyddo sgiliau llythrennedd a rhifedd
- eu bod yn gweu ystod eang o brofiadau diddorol a phwrpasol yn gelfydd iawn i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd bob plentyn
- eu bod yn swyno'r plant i fwynhau'i cyfnod yn y lleoliad a thrwy hynny i ymddwyn yn dda iawn
- bod trefniadau effeithiol iawn ar waith i annog plant i gadw'n iach

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod gan yr arweinyddion weledigaeth glir i waith y lleoliad a datblygiad y plant
- bod ganddynt ddealltwriaeth bendant o'r cryfderau'r a'r meysydd i'w gwella
- bod ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn gwneud defnydd da iawn o'u cryfderau i ddyrannu cyfrifoldebau
- bod arweinwyr yn croesawu cyngor a chymorth ac yn gweithredu arno'n ddiymdroi
- bod y bartneriaeth gyda'r Awdurdod Addysg a'r Mudiad Meithrin yn gryfder
- eu bod yn defnyddio cyllid yn briodol i gefnogi dysgu plant ac yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

- A1 Cynnwys y rheini yn y broses o hyrwyddo camau dysgu nesaf eu plan
- A2 Sicrhau dilyniant llyfn a phontio effeithiol o'r lleoliad i'r ysgol
- A2 Ffurfio partneriaethau i hyrwyddo datblygiad y lleoliad a'r plant ym mhob agwedd o'r cwricwlwm

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos yn disgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

**Ddim yn  
berthnasol**

#### **Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

#### **Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

**Da**

#### **Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn i gynllunio ystod o brofiadau dysgu ar sail themâu penodol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r plant yn y lleoliad. Maent yn bodloni anghenion plant o oedrannau gwahanol ac ar wahanol gamau datblygu yn dda.

Mae'r holl ymarferwyr yn fodolau da iawn o iaith raenus sydd yn cyfoethogi iaith y plant yn ddyddiol. Maent yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd plant. Er enghraifft, maent yn cyflwyno geirfa a chymalau newydd yn ystod amser cylch ac yn y tasgau ffocws sydd yn cyd-fynd a'u thema megis Y Gwanwyn. Maent yn pwysleisio'r rhain dro ar ôl tro yn ystod y gweithgareddau i sicrhau bod medrau iaith plant yn datblygu'n systematig. Maent yn sicrhau cyfleoedd niferus i blant adnabod eu henwau; er enghraifft, pan yn hunan gofrestru ac wrth nôl eu matiau byrbryd. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i blant wrando ar storiâu a mwynhau troi at lyfrau'n annibynnol yn ystod cyfnodau chwarae rhydd. Mae'r staff yn annog yr holl blant i ddatblygu sgiliau ysgrifennu cynnar wrth greu patrymau a siapiau gyda deunyddiau amrywiol wrth chwarae. Maent yn darparu cyfleoedd da i blant ysgrifennu eu henwau i adnabod eu gwaith.

Mae'r lleoliad yn sicrhau cyfleoedd da iawn i blant gyfri ac adnabod rhifolion ar draws pob maes dysgu. Er enghraifft, wrth gyfri faint o blant sydd yn bresennol yn ddyddiol a chofnodi'r rhif ar y wal.

Maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo trwy ddilyn themâu diddorol, fel yr hydref, wyau a llyfrau stori dengar. Maent yn trefnu ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol fel i'r parc, i'r dref agosaf ac i ymweld â gardd un o'r pentrefwyr. Maent hefyd yn croesawu aelodau'r gymuned fel i ddarllen stori sydd yn gysylltiedig â themâu. Hefyd, fe wnaeth ysgrifennu llythyrau at Sion Corn a'u postio ennyn llawer o ddiddordeb a dealltwriaeth o'r broses o

ddosbarthu post. Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddeall y dylent drin pethau byw gyda gofal, er enghraifft, wrth dyfu planhigion amrywiol, bwydo'r adar yn y gaeaf ac archwilio'r planhigion mwyaf addas i ddenu trychfilod. Maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau drwy ymwneud ag ystod eang o weithgareddau ymarferol heriol.

Mae'r plant yn cael cael profiadau gwerthfawr i ddatblygu eu medrau corfforol mewn sesiynau symud a dawns dyddiol. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i blant ddatblygu eu medrau creadigol trwy arbrofi gydag amrediad eang o ddeunyddiau megis paent, toes a sialc a thrwy ganu caneuon bywiog ac amrywiol.

Maent yn dathlu ac yn dysgu am eu treftadaeth eu hunain a threftadaeth diwylliannau eraill mewn modd ystyrlon. Er enghraifft, maent yn dathlu Gŵyl Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi, gan drafod gwisg Gymreig, a chanu caneuon traddodiadol.

### **Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth sicr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddewis gweithgareddau ac addysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn hybu plant mwy abl yn dda trwy ddefnyddio cwestiynau heriol. Maent yn darparu cydbwysedd da iawn rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plant a rhai sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr, sy'n bodloni anghenion plant unigol yn effeithiol iawn. Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddweud eu barn a gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Mae ymarferwyr yn fodolau iaith da. Maent yn bwydo geirfa goeth wrth siarad gyda'r plant a thrwy eu dewis o straeon a chaneuon a rhigymau amrywiol sydd yn seiliedig ar eu themâu. Mae eu medrau holi'n ategu'n dda iawn at addysgu'r plant.

Mae'r amgylchedd tu fewn yn ysgogol iawn a gwna'r ymarferwyr ddefnydd rhagorol ohono i hybu annibyniaeth y plant. Gwneir y defnydd da o'r ardal fechan tu allan hefyd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant. Fel canlyniad, mae'r plant yn cymryd rhan yn dda iawn ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio system briodol i asesu ac olrhain cynnydd plant ar draws pob maes dysgu. Maent yn dechrau defnyddio hyn yn effeithiol i gynllunio camau dysgu nesaf plant. Maent yn adrodd i rieni ar gynnydd eu plant yn rheolaidd ac yn trosglwyddo cofnod deniadol o waith a chynnydd y plant pan fyddant yn gadael y lleoliad. Mae gwahoddiad agored i rieni drefnu i drafod cynnydd eu plant unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn dda iawn. Maent yn defnyddio amser yn dynn ac effeithiol iawn sydd yn helpu i gipio diddordeb y plant yn llwyr. Mae'r ymarferwyr oll yn dilyn yr un drefn sy'n seliedig ar adnabod a pharchu'r plant. Maent yn rhoi canmoliaeth iddynt am agweddau penodol sydd angen eu datblygu, fel dangos annibyniaeth wrth dacluso.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau da gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles plant, a'u hannog i fod yn fwy annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ofalu amdanynt eu hunain wrth wisgo'u cotiau cyn mynd allan ac wrth olchi eu dwylo cyn bwyta.

Mae'r trefniadau hybu bywyd iach yn dda iawn trwy ddilyn safonau cenhedlaeth lleoliadau iach. Rhoddant ffrwythau a dŵr i'r plant adeg byrbryd a chyfleoedd da i iddynt ddewis pa ffrwythau, pa siâp tost a pha ddioddydd y buasent yn eu hoffi. Ar y cyfan, mae'r plant yn mwynhau amser rheolaidd yn yr awyr agored ar draws y flwyddyn er mor gyfyng ydyw'r ardal tu allan.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr iawn i'r plant, sy'n meithrin eu datblygiad ysbrydol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol yn gadarnhaol iawn. Er enghraifft, mae plant yn datblygu medrau cymdeithasol cadarn yn ddyddiol wrth ymateb i gyfarwyddiadau, fel eistedd wrth fwrdd i fwyta a dweud diolch am eu bwyd. Maent yn dysgu am ddiwylliannau eraill yn effeithiol pan fyddant yn gwrandao ar storiâu wedi eu lleoli mewn gwledydd eraill a pan fyddant yn chwarae gyda doliau o dras amrywiol. Byddant hefyd yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd trwy wisgo i fyny, bwyta bwyd Tseiniaidd a chreu dreigiau a baneri coch.

Mae'r ymarferwyr yn fodolau da iawn wrth ddangos parch tuag at y plant i hybu eu hunan hyder. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol fel tegwch, parch ac ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn dda yn naturiol yn ystod y gweithgareddau a thrwy storiâu. Er enghraifft, wrth helpu plant i fod yn deg wrth gymryd eu tro i greu cyw bychan allan o blu a thoes melyn. Mae trefniadau addas i helpu plant i ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu, fel gwastraff bwyd amser byrbryd.

Mae systemau da yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion addysgol ychwanegol ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth ychwanegol gan asiantaethau arbenigol fel bo'r angen.

Mae ystod addas o bolisiâu ar waith gan y lleoliad i ddiogelu plant a hybu eu lles. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## **Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos y lleoliad yn creu awyrgylch croesawgar a hapus i'r holl blant. Mae'n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r profiadau dysgu a ddarperir.

Mae'r amgylchedd tu fewn y lleoliad yn ddiogel a chaiff ei ddefnyddio a'i gynnal yn rhagorol. Mae'n fyrlymus iawn a chroesawgar a chyda gwaith tîm hynod effeithiol, mae'r ymarferwyr yn ei drawsnewid mewn byr amser. Mae'n amrywio'n slic o glwstwr o ardaloedd, caffï ar gyfer snac, neuadd ar gyfer canu a dawnsio a man tawel i ymdawelu a ffarwelio. Yna mae'r ymarferwyr yn storio'i holl adnoddau'n sydyn a destlus er mwyn i'r ysgol a'r gymuned ddefnyddio'r neuadd yn hwyrach ymlaen yn y dydd. Maent yn paratoi arddangosfeydd diddorol iawn sy'n dathlu gwaith plant ac yn cefnogi eu themâu penodol megis Gŵyl Ddewi, a'r Pasg.



Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth dda iawn o adnoddau addas i'r plant eu defnyddio, sy'n drefnus ac o ansawdd ardderchog. Yn ddiweddar, maent wedi adnewyddu adnoddau mewn rhai meysydd, fel yn y cornel technoleg. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu plant.

Mae'r ymarferwyr yn ceisio gwneud defnydd da o'r ardal tu allan sydd ar gael iddynt drwy ddarparu amrediad o weithgareddau ac adnoddau priodol i hybu sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn defnyddio'r ardal dan do a'r amgylchedd lleol yn rhagorol i gyfoethogi profiadau plant a'u datblygiad corfforol. Maent yn cymryd mantais dda iawn o'u hardal i fynd allan i sylwi ar y newidiadau tymhorol yn y gwrychoedd ac ar y coed.

<b>Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ddau arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn dda iawn. Maent hwy ynghyd a'r ymarferwyr, a'r person cofrestredig yn dîm ymroddgar iawn. Maent yn rhannu ymdeimlad cryf o bwrpas a chydweithio tra effeithiol.

Mae yn creu amgylchedd hapus a phwrpasol iawn lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cyfri. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, sy'n arwain at safon dda iawn o ofal ac addysg yn y lleoliad.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymroddgar ac yn cyfrannu'n briodol at redeg y lleoliad. Yn ddiweddar maent wedi ychwanegu at yr aelodaeth er mwyn cryfhau'r gynrychiolaeth o bartneriaid i hybu datblygiad y lleoliad ymhellach. Nid yw eu cyfarfodydd yn ddigon ffurfiol a rheolaidd er enghraifft i drafod defnydd o'r arian wrth gefn a datblygiad yr ardal tu allan.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio'r rhain yn dda i nodi anghenion cymorth, fel mynychu cyrsiau penodol. O ganlyniad, mae plant yn elwa o brofiadau dysgu o ansawdd da iawn.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn sicrhau bod ffocws cryf iawn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Maent hefyd yn dilyn cynllun asesu cenedlaethol i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddysgu am fwyta a byw yn iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinwyr yn brofiadol iawn wrth eu gwaith ac mae ganddynt ymrwymiad cadarnhaol iawn i wella'n barhaus. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus, ac yn gweithredu ar y rhain yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o broses hunan arfarnu newydd i'w helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Maent wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus iawn i greu cynllun gwella cryno sy'n cynnwys blaenoriaethau clir a chyfleoedd gwerthfawr i arfarnu cynnydd. Maent yn gwneud cynnydd da iawn tuag at gyflawni'r targedau, fel gwella medrau technolegol plant.

Maent yn blaenoriaethu gwariant cyllid yn addas. Er enghraifft, prynodd yr arweinwyr adnoddau newydd i hybu medrau technolegol plant ac eraill i gryfhau eu profiadau yn eu themâu penodol. O ganlyniad, mae plant yn datblygu eu medrau technolegol yn effeithiol wrth fwynhau'r holl weithgareddau diddorol sy'n ymwneud a'u hastudiaeth o gywion ac wyau. Mae arweinwyr yn rhannu eu dogfen hunan arfarnu a'u cynllun gwella yn briodol swyddogion y pwyllgor rheoli, gan sicrhau eu cefnogaeth wrth weithio tuag at flaenoriaethau penodol.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda iawn gydag asiantaethau eraill fel athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin. Maent yn agored iawn i syniadau newydd ac yn barod i weithredu ar argymhellion. Er enghraifft, wrth weithredu i gynllunio gweithgareddau byrlymus i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'r arweinwyr wedi gweithredu'n ar argymhellion eu harolygiad diweddar gan AGGCC.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod gadarn o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles plant.

Mae arweinwyr yn gwneud nifer o ymdrechion i rannu gwybodaeth â rhieni, drwy er enghraifft, rannu gwybodaeth ysgrifenedig am y themâu a ddilynir gan y plant. Maent yn gwerthfawrogi cyfraniad buddiol iawn y rhieni i'r themâu. Maent yn cynnig gwahoddiad drws agored i rieni er mwyn iddynt dderbyn adborth anffurfiol am gynnydd eu plant. Maent hefyd yn adrodd yn ffurfiol i rieni am gynnydd eu plant ar ddiwedd pob blwyddyn. Nid ydynt yn cynnwys y rheini'n llawn yn y broses er mwyn cydweithio i hyrwyddo camau dysgu nesaf eu plant.

Mae bron pob plentyn yn trosglwyddo i'r ysgol brif ffrwd ac mae gan y lleoliad berthynas briodol gyda'r ysgol honno. Mae plant yn ymweld â'r ysgol yn nhymor yr haf i'w helpu i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth gyda'r ysgol yn sicrhau cysondeb digonol o ran cyfleoedd dysgu ac arddulliau addysgu i sicrhau dilyniant llyfn a phontio effeithiol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn addas i gefnogi dysgu plant. Maent yn gwahodd ymwelwyr i'r lleoliad yn rheolaidd i ddarllen storiâu ysgogol ac fe ddaeth y postmon lleol i'w helpu i ddeall postio a dosbarthu llythyron.

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn dda iawn i gyngor athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin sydd yn cynorthwy gwelliant parhaus yn y lleoliad yn dda iawn.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y ddau arweinydd brofiad eang dros flynyddoedd lawer o weithio gyda phlant ifanc ac mae'r ymarferwyr eraill yn ymroddgar iawn. Maent yn rhedeg y lleoliad yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd da o'u harbenigedd unigol i wella profiadau dysgu plant, fel gweithredu tabled technolegol a rheoli cryno ddisgiau i wella medrau TGCh y plant.

Mae yn manteisio ar ystod dda o hyfforddiant fel eu bod yn gyfredol ac yn datblygu eu medrau. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar asesu wedi gwella'u dealltwriaeth o'r broses ac wedi arwain at gofnodi rheolaidd o gynnydd plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr wedi cael cyfle i'w weithredu'n llawn.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli'n sicrhau fod adolygiad y gyllideb yn fanwl. Mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant ac yn defnyddio cyllid yn ofalus iawn i gefnogi dysgu plant ac i sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy.

O ystyried y datblygiadau cadarnhaol yn yr addysgu a'r dysgu, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the setting.	10	8 80%	2 20%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol.
		80%	20%	0%	0%		
My child likes this setting.	10	8 80%	2 20%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.
		85%	15%	0%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the setting.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad.
		86%	13%	0%	0%		
My child is making good progress at the setting.	10	9 90%	1 10%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.
		81%	18%	0%	0%		
Children behave well in the setting.	10	9 90%	1 10%	0 0%	0 0%	0	Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.
		72%	27%	1%	0%		
Teaching is good.	10	9 90%	1 10%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		81%	19%	0%	0%		
Staff treat all children fairly and with respect.	9	8 89%	1 11%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		84%	16%	0%	0%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	9	9 100%	0 0%	0 0%	0 0%	1	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		76%	23%	0%	0%		
My child is safe at the setting.	10	9 90%	1 10%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
		85%	15%	0%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	6	4 67%	2 33%	0 0%	0 0%	3	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		72%	27%	1%	0%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	9	5 56%	4 44%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		63%	31%	5%	1%		
I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem.	9	8 89%	1 11%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		80%	18%	1%	0%		
I understand the setting's procedure for dealing with complaints.	10	8 80%	2 20%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.
		65%	31%	3%	1%		
My child is well prepared for moving on to school.	9	9 100%	0 0%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.
		74%	25%	1%	0%		
There is a good range of activities including trips or visits.	9	8 89%	1 11%	0 0%	0 0%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		63%	32%	4%	1%		
The setting is well run.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.
		82%	17%	1%	0%		

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Dr Prydwen Elfed-Owens	Arolygydd Cofnodol
------------------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.